

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Penygelli

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Penygelli yn darparu amgylchedd cynnes a gofalgar ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion, staff a'r gymuned yn falch o'r ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal da gan eu hathrawon y mae ganddynt berthnasoedd gweithio cryf â nhw. At ei gilydd, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac maent yn trin ei gilydd ac oedolion â pharch.

Mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth dros dro a ffurfiwyd yn ddiweddar wedi ailsefydlu diwylliant cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth dros dro, gyda chymorth gan y dirprwy bennaeth, yn hynod weladwy ac yn gweithio'n dda gydag aelodau staff eraill tuag at gyflawni eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd gofalgar, meddylgar, hapus a diogel ar gyfer disgyblion. Maent wedi dod â staff at ei gilydd trwy gyfnod heriol ac wedi ailsefydlu gweledigaeth ar gyfer lles a pherthyn ar draws cymuned yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau llafaredd, darllen, corfforol a chreadigol yn dda, ond nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd o ran datblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Yn ddiweddar, mae'r tîm arweinyddiaeth dros dro wedi sefydlu systemau effeithiol i ennill dealltwriaeth well o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw prosesau gwerthuso a gwella'r ysgol wedi bod yn ddigon effeithiol o ran sicrhau gwelliannau i agweddau pwysig ar addysgu a dysgu.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn gryfder, gan roi'r ysgol yng nghanol y gymuned. Ceir ymdeimlad o falchder mewn bod yn gysylltiedig â'r ysgol ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r rôl gadarnhaol y mae'n ei chwarae mewn datblygu brwdfrydedd eu plant dros ddysgu.

# Argymhellion

A1 Datblygu'r cwricwlwm ymhellach i sicrhau ei fod yn cefnogi datblygu medrau disgyblion yn raddol, yn enwedig ysgrifennu a rhifedd, wrth iddynt symud trwy'r ysgol

A2 Gwella'r agweddau ar addysgu a phrofiadau y nodwyd yn yr adroddiad eu bod yn llai effeithiol

A3 Mireinio prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol i ganolbwyntio'n fanwl ar ysgogi gwelliannau i addysgu a dysgu

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Penygelli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 293 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 234 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.6% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 14/11/2014 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 09/05/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.